Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adolygiad Dilynol Cyfunol ar Archwiliadau Gwybodeg a Thechnoleg Cyfathrebu

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**Cyhoeddwyd:** Mai 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 312A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Yr unigolyn a gyflawnodd y gwaith oedd Andrew Strong.

# Cynnwys

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi gwneud cynnydd mewn rhai meysydd a grybwyllwyd mewn adolygiadau blaenorol, ond mae angen gwelliannau ychwanegol megis cymeradwy'r strategaeth e-Iechyd, gwella cywirdeb gwybodaeth a phrofi cynlluniau parhad busnes.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Argymhellion | 7 |
| Adroddiad manwl | |
| Asesiad o'r cynnydd | 9 |
| Er bod trefniadau llywodraethu gwybodaeth a'r polisi ansawdd data sydd wedi'i ddiweddaru yn darparu'r seiliau ar gyfer gwella ansawdd data, mae heriau'n parhau o ran gwella cywirdeb gwybodaeth y Bwrdd Iechyd Prifysgol | 9 |
| Mae gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol agwedd safonol at adfer ar ôl trychineb a chynllunio parhad busnes, er bod profion ar gynlluniau parhad busnes yn gyfyngedig a bod lle i gryfhau'r dull gweithredu mewn rhai is-adrannau | 12 |
| Mae trefniadau Caldicott wedi'u datblygu'n dda yn y Bwrdd Iechyd Prifysgol, ond mae lle i wneud rhagor o welliannau drwy gymeradwyo'r diweddariad i strategaeth wybodaeth y Bwrdd Iechyd Prifysgol, cwblhau'r rhaglen datblygu stiwardiaid llywodraethu gwybodaeth a hysbysu cleifion o'r defnydd a wneir o'u gwybodaeth | 19 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal nifer o adolygiadau blaenorol yn ymwneud ag agweddau ar Wybodeg a Thechnoleg Cyfathrebu (GTC) ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y BIP). Roedd y rhain yn cynnwys:
   - Ansawdd Data (2012)
   - Adfer TG ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes (adolygiad gwreiddiol yn 2009 ac adolygiad dilynol ym mis Ionawr 2012)
   - Trefniadau Caldicott (2013)
2. Tynnodd bob adolygiad sylw at nifer o feysydd ar gyfer gwella, gyda'r casgliadau allweddol fel a ganlyn.  Mae Dangosyn 1 yn crynhoi'r casgliadau allweddol o'r adolygiadau blaenorol.

Dangosyn 1: Casgliadau allweddol o adolygiadau GTC blaenorol

| Enw'r adolygiad a'i ddyddiad | Casgliadau allweddol |
|---|---|
| Ansawdd Data (2012) | Mae ansawdd data'r Bwrdd Iechyd o safon dda; fodd bynnag, gallai trefniadau llywodraethu cymhleth fod yn rhwystr posibl i wella. |
| Adfer TG ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes (2009 a 2012) | Er na weithredwyd ar yr holl argymhellion a wnaethom yn ein hadroddiad blaenorol yn 2009, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cryfhau ei drefniadau ar gyfer adfer GTC ar ôl trychineb a pharhad busnes. |
| Trefniadau Caldicott (2013) | Er ei bod yn ymddangos bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli a chynllunio addas ar gyfer ategu gofynion llywodraethu Caldicott a'i fod wedi mynd ati i gynllunio ar sail dealltwriaeth dda o gyfrifoldebau cyfrinachedd gwybodaeth, mae angen i'r BIP gryfhau ei drefniadau Caldicott i sicrhau eu bod yn gwbl effeithiol. |

3. Mae'r adolygiad dilynol hwn yn asesu cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion a wnaed yn ein hadolygiadau blaenorol ac yn ceisio ateb y cwestiwn: **'A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran ymdrin â'r materion ac argymhellion allweddol y tynnwyd sylw atynt yn ein hadroddiadau blaenorol yn ymwneud â materion Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg?'**
4. Daethom i'r casgliad fod y BIP wedi gwneud cynnydd mewn rhai meysydd a grybwyllwyd mewn adolygiadau blaenorol, ond mae angen gwelliannau pellach fel cymeradwyo'r strategaeth e-Iechyd, gwella cywirdeb gwybodaeth a chynnal profion ar gynlluniau parhad busnes.

**5.** Nodir ein hasesiad manwl o'r cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol ym mhrif gorff yr adroddiad hwn ac mae crynodeb ar gael ar gyfer pob un o'n hadroddiadau blaenorol ar y dudalen nesaf.

6. **Adolygiad o Ansawdd Data** - Er bod trefniadau llywodraethu gwybodaeth a'r polisi ansawdd data sydd wedi'i ddiweddaru yn darparu'r seiliau ar gyfer gwella ansawdd data, mae heriau i'w cael o hyd o ran gwella cywirdeb gwybodaeth y BIP; mae trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn cael eu gweithredu drwy'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth (PLlG) a'r Grŵp Datblygu Gwybodaeth (GDG) i sicrhau bod materion ansawdd data yn aros ar agenda'r BIP:
   - Mae'r BIP wedi sefydlu Adroddiad Gwybodeg Blynyddol a gymeradwyir gan y Tîm Gweithredol ac a gyflwynwyd i'r PLlG ym mis Ebrill 2014. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cydnabod bod yn rhaid cael gwybodaeth amserol, gywir a phriodol i gefnogi trefniadau monitro, perfformiad, cynllunio a llywodraethu'r BIP.
   - Mae'r BIP wedi diweddaru a chytuno ar Bolisi Ansawdd Data sy'n sefydlu bod gan yr holl staff gyfrifoldeb ffurfiol am ansawdd data, yn cadarnhau swyddogaeth y PLlG a'r GDG o ran monitro ansawdd data ac yn nodi swyddogaethau corfforaethol penodol sydd ag atebolrwydd o ran rheoli gwybodaeth.
   - Mae'r BIP yn wynebu heriau o ran gwella cywirdeb yr wybodaeth y mae'n ei defnyddio ac mae'r rhain yn cynnwys ymwreiddio cyfrifoldeb ac atebolrwydd personol staff dros ansawdd data, gwella adnoddau ar gyfer codeiddio clinigol a'i gywirdeb a chryfhau safonau data a dilysu.
7. **Adolygiad o adfer technoleg gwybodaeth ar ôl trychineb a pharhad busnes –** Mae gan y BIP dull gweithredu safonol ar gyfer adfer ar ôl trychineb a chynllunio parhad busnes, er bod profion ar gynlluniau parhad busnes yn gyfyngedig a bod lle i gryfhau'r dull gweithredu mewn rhai is-adrannau:
   - Mae gan y BIP ail brif ganolfan ddata yn Ysbyty Aneurin Bevan (YAB) sy'n darparu elfen o gydnerthedd pe bai digwyddiad yn y brif ganolfan ddata ym Mamheilad.
   - Mae'r BIP wedi paratoi cynlluniau ar gyfer adfer ar ôl trychineb, fodd bynnag, ar y cyfan nid yw'r rhain wedi cael eu profi i roi sicrhad eu bod yn gweithio fel y dylent. Yn lle hynny, mae'r BIP wedi darparu ateb amgen i brofi trefniadau a chynlluniau wrth gefn. Caiff holl systemau TG hanfodol y BIP, heblaw'r systemau patholeg Masterlab a Telepath, eu dyblygu o leiaf unwaith bob dydd o ganolfan ddata Mamheilad i'r safle gronfa ddata arall yn YAB.
   - Yn ogystal, mae copi wrth gefn yn cael ei greu o'r systemau TG llai hanfodol nad ydynt yn cael eu dyblygu ar y safle arall, ar ddyfeisiau rhwydwaith ardaloedd storio, ac mae copïau wrth gefn yn cael eu creu o'r rheini hefyd mewn amser real i ddyfais rhwydwaith ardaloedd storio wedi'i leoli yn YAB.
   - Mae'r BIP wedi llunio cynllun gwybodeg tymor canolig treigl dros dair blynedd i flaenoriaethu buddsoddiadau i gynnal a gwella systemau a seilwaith TG y BIP. Cymeradwywyd cynllun cyllid cyfalaf a dyrannwyd yr arian ar gyfer 2014-15. Yn Ebrill 2015 nid oedd cynllun cyllid cyfalaf 2015-16 eto wedi'i gymeradwyo.
   - Mae'r BIP wedi datblygu Polisi Rheoli Parhad Busnes cymeradwy i fynnu agwedd safonol a phwysleisio cyfrifoldeb adrannol o ran sefydlu trefniadau parhad busnes effeithiol.

- Datblygwyd cynlluniau parhad busnes gan rai Is-adrannau er nad yw pob un o'r rhain wedi'u cwblhau'n gyfan gwbl ac nid yw rhai cynlluniau parhad busnes wedi cael eu profi.

**8.** **Adolygiad o drefniadau Caldicott** - Mae trefniadau Caldicott wedi'u datblygu'n dda yn y BIP, ond mae lle i wneud rhagor o welliannau drwy gymeradwyo'r diweddariad i strategaeth wybodaeth y Bwrdd Iechyd Prifysgol, cwblhau'r rhaglen datblygu stiwardiaid llywodraethu gwybodaeth a hysbysu cleifion o'r defnydd a wneir o'u gwybodaeth:

- mae hunanasesiad Caldicott y BIP yn dangos y bu gwelliant o ran lefel cydymffurfiaeth Caldicott ers 2013, pan oedd yn 79 y cant, gan hysbysu'r Weithrediaeth o lefel gydymffurfiaeth o 82 y cant ym mis Ebrill 2015;
- daeth Strategaeth Lywodraethu Gwybodaeth bresennol y BIP i ben yn gynnar yn 2015 a diweddarwyd hon a'i hymgorffori yn Strategaeth e-Iechyd drafft y BIP ar gyfer 2014-2019 sydd ar hyn o bryd yn aros am gymeradwyaeth y Weithrediaeth;
- mae'r rhaglen stiwardiaid llywodraethu gwybodaeth yn mynd rhagddi'n dda er bod y gwaith o benderfynu ar lefel y stiwardiaid sydd eu hangen ac o sicrhau bod pob maes gwasanaeth wedi'i gynrychioli'n parhau; ac
- mae'r BIP wedi drafftio ymgyrch bosteri a thaflenni newydd i ddechrau ym mis Ebrill 2015 ar gyfer hysbysu cleifion ynglŷn â pha ddefnydd a wneir o'u gwybodaeth.

# Argymhellion

**9.** Mae manylion pellach ynghylch ein casgliadau o ran yr adolygiad cyfunol, dilynol TG hwn a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gwella a nodwyd o'r blaen ar gael yn adran fanwl yr adroddiad hwn.

**10.** Dylai'r BIP barhau i weithredu'r argymhellion a wnaethom nas cwblhawyd ers ein hadolygiadau blaenorol. Hefyd, gwnaethom yr argymhellion newydd a ganlyn.

| **Ansawdd data** | |
|---|---|
| A1 | Sicrhau bod y BIP yn cyrraedd y targed hyfforddi drwy e-ddysgu o ran Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfrinachedd, sef bod 80 y cant o'r staff wedi'i gwblhau. |

**Adfer TG ar ôl trychineb a chynllunio parhad busnes**

| | |
|---|---|
| A2 | Ynghyd â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) a darparwr y System Rheoli Gwybodaeth ar gyfer Labordai (LIMS) genedlaethol, dylai'r BIP ddatblygu cynllun i drosglwyddo o'r hen systemau patholeg Masterlab a Telepath i'r system LIMS genedlaethol sydd wedi'i lleoli yn y Canolfannau Data cenedlaethol. |
| A3 | Rhoi map o gydnerthedd systemau ar gof a chadw er mwyn asesu'r holl systemau TG lleol a ddefnyddir gan y BIP er mwyn mapio trefniadau o ran argaeledd a threfniadau ar gyfer adfer a gwneud copïau wrth gefn. |
| A4 | Rhoi adroddiad i'r PLIG ar y map argaeledd systemau, i roi sicrwydd bod systemau TG a gwybodaeth y BIP yn dangos cydnerthedd priodol. |

**Adolygiad Caldicott**

| | |
|---|---|
| A5 | Sicrhau bod gan y tîm Llywodraethu Gwybodaeth ddigon o adnoddau i gynnal hyfforddiant a rhaglenni addysg cyfrinachedd gwybodaeth, er enghraifft ymgyrchoedd posteri a thaflenni a hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth bwrpasol. |
| A6 | Sefydlu targed priodol ar gyfer y nifer o Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth sydd eu hangen i arwain ar gydymffurfio o ran llywodraethu gwybodaeth ar draws y sefydliad. Dylai hyn ystyried yr holl gefnogaeth a hyfforddiant y bydd ei angen ar Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth. Sicrhau bod pob maes wasanaeth wedi'i gynrychioli'n briodol gan Stiwardiaid Gwybodaeth, er enghraifft, Gwasanaethau Cymunedol. |
| A7 | Lle bo gan staff fynediad at gyfrifiadur â gyriant cd/dvd mewnol, dylid atgoffa'r aelodau staff hynny o ofynion polisi diogelwch TG y BIP ac o ganlyniadau torri'r polisi hwn. |

**Gwybodeg ar gyfer y BIP cyfan**

| | |
|---|---|
| A8 | Sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo'r Strategaeth e-Iechyd ar gyfer 2014-2019 a'i bod yn cael digon o adnoddau. |

# Adroddiad manwl

## Asesiad o gynnydd

**11.** Mae'r tablau isod yn rhestru'r argymhellion a wnaed yn ein hadolygiadau blaenorol ac yn rhoi ein barn ar ba un a yw'r argymhelliad wedi'i roi ar waith yn gyfan gwbl (✓), yn rhannol (✓/×) neu heb ei roi ar waith (×).

### Er bod trefniadau llywodraethu gwybodaeth a'r polisi ansawdd data wedi'i ddiwedaru yn darparu'r seiliau ar gyfer gwella ansawdd data, mae heriau i'w cael o hyd o ran gwella cywirdeb gwybodaeth y BIP

| Cyfeirnod | Wedi ei roi ar waith? | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad o Ansawdd Data** | | | |
| A1 | ✓ | Cyflwyno adroddiad blynyddol ar ansawdd data i roi sicrwydd ar lefel sefydliadol, sydd yn cynnwys y trefniadau sy'n bodoli i sicrhau ansawdd data, ac effeithiolrwydd y trefniadau. | Mae'r BIP wedi sefydlu Adroddiad Blynyddol ar Wybodeg a gymeradwyir gan y Tîm Gweithredol. Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar Wybodeg i'r PLIG at ddibenion sicrwydd ym mis Ebrill 2014. Mae'r BIP yn cydnabod yn yr Adroddiad Blynyddol bod yn rhaid cael gwybodaeth amserol, gywir a phriodol i gefnogi'r agenda monitro, perfformiad, cynllunio a llywodraethu.<br>Mae'r Adroddiad Blynyddol yn ymdrin â'r trefniadau sydd ar gael i helpu i sicrhau ansawdd data drwy'r GDG a'i is-grwpiau ansawdd data. Mae'r GDG yn cyfarfod bob deufis i ddarparu cyfarwyddyd ac i safoni systemau gwybodaeth a phrotocolau. Mae'r is-grwpiau a reolir gan y GDG yn cynnwys cynrychiolaeth Is-adrannol ac fe'u cynlluniwyd i wella ansawdd y data o fewn systemau gwybodaeth y BIP. Mae gan y GDG raglen waith flynyddol ar gyfer gwella gwybodaeth busnes ac adrodd am berfformiad ac yn 2014 y mae hyn yn cynnwys datblygu dangosfyrddau perfformiad ac offer gwelyau ar wardiau. |

| Cyfeirnod | Wedi ei roi ar waith? | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A2 | ✓/× | Sicrhau bod trefniadau ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cynnwys ansawdd data’n briodol ar yr agenda. | Mae’r BIP yn dibynnu’n fawr ar staff clinigol i nodi gwybodaeth yn gywir. Er nad yw ansawdd data a chywirdeb codeiddio’r BIP yn cyrraedd y nod, a hynny yn ôl tystiolaeth archwiliadau diweddar o gofnodion iechyd, mae’r PLlG a’r GDG yn darparu’r trefniadau llywodraethu i helpu i sicrhau bod ansawdd data’n parhau i fod ar yr agenda. Mae’r timau Gwybodaeth a llywodraethu Gwybodaeth yn darparu cymorth a chyfarwyddyd i glinigwyr er mwyn helpu i wella cywirdeb gwybodaeth y BIP ac i gynnal ansawdd data ar lefel clinigol.<br>Mae heriau allweddol a gydnabuwyd gan y BIP a meysydd i’w gwella o ran ansawdd data ar gyfer ansawdd data yn 2015 yn cynnwys:<br>• ymgorffori perchenogaeth, cyfrifoldeb ac atebolrwydd o ran cywirdeb data ymhlith y staff clinigol er mwyn cynyddu ymgysylltiad â materion ansawdd data;<br>• cynyddu ansawdd data drwy wella safonau data, dilysu a chynllunio systemau drwy safoni eitemau o ddata, byrddau o ddata a setiau data;<br>• addysg a hyfforddiant pwrpasol ar gyfer y staff hynny sy’n cofnodi a mewnbynnu gwybodaeth ar systemau gwybodaeth y BIP; a<br>• gwella lefelau codeiddio clinigol drwy ddarparu adnoddau codeiddio ychwanegol. |

| Cyfeirnod | Wedi ei roi ar waith? | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| R3 | ✓ | Ymgorffori ansawdd data yn y broses ymsefydlu neu hyfforddiant ar gyfer pob cyflogai newydd sydd â chyfrifoldeb am gofnodi, dadansoddi neu newid data clinigol a busnes. Darparu cyrsiau diweddaru hyfforddiant ansawdd data fel bo'r angen. | Mae'r BIP yn darparu hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer pob cyflogai newydd sy'n cynnwys cyflwyniad i faterion yn ymwneud ag ansawdd data. Mae gan y BIP raglen orfodol o hyfforddiant e-ddysgu y mae'n rhaid i'r holl staff ei chwblhau bob dwy flynedd. Mae holl reolwyr llinell y BIP yn gyfrifol am fonitro a sicrhau bod staff yn cwblhau modiwlau'r pecyn.<br>Cyflenwir hyfforddiant cyfrinachedd gwybodaeth y BIP yn bennaf drwy becyn e-ddysgu er bod hyfforddiant pwrpasol mewn ystafell ddosbarth ar gael hefyd i'r staff hynny sy'n cofnodi, dadansoddi neu newid data clinigol.  Adroddwyd wrth y PLIG ym mis Ebrill 2014 yn yr Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Gwybodaeth fod cydymffurfiaeth staff o ran cwblhau hyfforddiant cyfrinachedd gwybodaeth yn 75 y cant yn erbyn targed y BIP o 80 y cant. |
| R4 | ✓ | Sicrhau bod y Polisi Ansawdd Data'n cael ei diweddaru:<br>• dylai ei gwmpas gynnwys pob agwedd o'r Bwrdd Iechyd;<br>• dylai'r polisi nodi'r holl bwyllgorau perthnasol ac adlewyrchu eu cylchoedd gorchwyl; a<br>• dylai rolau a chyfrifoldebau adlewyrchu trefniadau presennol gwirioneddol. | Diweddarodd y BIP y Polisi ar gyfer sicrhau Ansawdd Data ym mis Mehefin 2014 (Polisi Ansawdd Data). Fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol a bydd y diweddariad nesaf ym mis Mehefin 2017. Mae'r Polisi Ansawdd Data ar gael i'r holl staff ar fewnrwyd y BIP ac mae'n cynnwys:<br>• cwmpas y polisi, yn cynnwys yr holl staff sy'n mewnbynnu gwybodaeth i systemau'n wedi'u seilio ar gleifion;<br>• datganiad polisi o ran rheoli ansawdd data;<br>• cyfrifoldebau staff mewn perthynas ag ansawdd data, er enghraifft, Cyfarwyddwyr Is-adrannau, rheolwyr llinell staff a Phennaeth Cofnodion Iechyd;<br>• cyfrifoldebau swyddogaethau corfforaethol penodol â chyfrifoldeb dros ansawdd data neu wybodaeth, er enghraifft, Cyfarwyddwyr Perfformiad a Gwella, Pennaeth Gwybodaeth a Phennaeth Llywodraethu Gwybodaeth; a<br>• chyfrifoldebau Pwyllgorau'r BIP a grwpiau sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd data, er enghraifft, y PLIG a'r GDG. |

## Mae gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol ddull gweithredu safonol ar gyfer adfer ar ôl trychineb a chynllunio parhad busnes, er bod profion ar gynlluniau parhad busnes yn gyfyngedig a bod lle i gryfhau'r dull gweithredu mewn rhai is-adrannau.

| Cyfeirnod | Wedi ei roi ar waith? ? | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad o Adfer TG ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes – argymhellion o adroddiad 2009** | | | |
| A1 | ✓ | Datblygu cynllun buddsoddi wedi ei ariannu a'i flaenoriaethu i foderneiddio seilwaith TGCh y Bwrdd Iechyd a gwella ei gydnerthedd. | Mae'r BIP wedi cynhyrchu Cynllun Gwybodeg Tymor Canolig treigl dros dair blynedd. Cyflwynwyd y Cynllun ar gyfer 2015 – 2018 i'r PLlG at ddibenion sicrwydd yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2015. Mae'r Cynllun Gwybodeg Tymor Canolig yn alinio cyflawniadau a blaenoriaethau gwybodeg lleol y BIP â'r mentrau cenedlaethol ac yn darparu crynodeb o'r cynlluniau i ddiweddaru neu fuddsoddi mewn gwybodeg er mwyn cynnal a gwella systemau a seilwaith TG y BIP. Yn ogystal, mae adran Wybodeg y BIP wedi cynhyrchu cynllun pum mlynedd ar gyfer buddsoddi cyfalaf sy'n cynnwys y Cynllun Gwybodeg Tymor Canolig tair blynedd a chynllun dwy flynedd cyllid cyfalaf ychwanegol.<br>Derbyniodd cyfarfod mis Chwefror y PLlG ddiweddariad Cyllid Cyfalaf Gwybodeg am hynt y £865,000 o gyllid cyfalaf a ddyrannwyd ar gyfer 2014-15 a'r gofynion ar gyfer 2015-16 a gyflwynwyd yn y Cynllun Gwybodeg Tymor Canolig. Mae'r BIP yn gweithredu proses asesu risg i dargedu meysydd â blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi cyfalaf i gynnal ei wasanaethau TG presennol ac i gefnogi gwelliannau gwybodeg strategol. Mae Adran Wybodeg y BIP yn cydnabod yr heriau o ran sicrhau cyllid cyfalaf ar gyfer Gwybodeg yn erbyn blaenoriaethau eraill y prosesau cyllid cyfalaf. Ym mis Ebrill 2015, nid oedd cynllun cyllid cyfalaf 2015-16 wedi'i gytuno.<br>Mae'r Cynllun Gwybodeg Tymor Canolig treigl dros dair blynedd yn cael ei ddiweddaru bob blwyddyn, gan geisio cymeradwyaeth ar gyfer cynigion moderneiddio TG ar gyfer y flwyddyn |

| Cyfeirnod | Wedi ei roi ar waith? ? | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| | | | gyfredol o fewn y cyllidebau cyfalaf adnoddau sydd ar gael. Bwriad yr Adran Wybodeg yw cynhyrchu'r Cynllun Gwybodeg Tymor Canolig bob blwyddyn i nodi'r diweddariadau sydd eu hangen o ran y seilwaith TG, ac ystyried y cyllid sydd ar gael i foderneiddio seilwaith TG y Bwrdd Iechyd a gwella ei gydnerthedd. |
| A2 | ✓ | Sefydlu ail brif ystafell gyfrifiaduron fel nad yw'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar un brif ystafell gyfrifiaduron. Gellir lleoli gweinyddion eilaidd yn yr ail ganolfan ddata hon er cydnerthedd. Gellir defnyddio hyn hefyd fel adnodd Adfer ar ôl Trychineb i adfer systemau pe digwydd i rywbeth amharu ar wasanaethau TGCh. | Mae'r BIP wedi sefydlu ail ganolfan ddata yn Ysbyty YAB. Mae hyn yn darparu ail ystafell gyfrifiaduron fel nad yw'r BIP yn gwbl ddibynnol ar y brif ganolfan ddata ym Mamheilad. Gellir defnyddio'r ystafell gyfrifiaduron eilaidd hon yn rhan o gynlluniau'r BIP ar gyfer adfer TGCh ar ôl trychineb pe bai digwyddiad yn effeithio ar ganolfan ddata Mamheilad.<br>Atgynhyrchir nifer o systemau TG hanfodol y BIP yng nghanolfan ddata Mamheilad yn YAB, er enghraifft, Clinical Workstation (CWS) a System Weinyddu Cleifion Myrddin PAS. Mae'r BIP hefyd wedi lleoli ail Rwydwaith Ardaloedd Storio (RhAS) yng nghanolfan ddata YAB a ddefnyddir i greu copïau wrth gefn mewn amser real o'r systemau lleol hynny i'r BIP a gedwir ar RhAS Mamheilad ac nad ydynt yn cael eu hatgynhyrchu yn YAB. |
| A3 | ✓/✗ | Rhoi prawf ar gynlluniau Adfer ar ôl Trychineb i sicrhau eu bod yn gweithio fel y dylent a'u bod yn addas at eu diben. Dylid cynnal y prawf hwn o leiaf unwaith y flwyddyn. | Nid yw'r BIP yn cynnal prawf llawn adfer TG ar ôl trychineb yn flynyddol nac un wedi'i drefnu. Nid yw'r Adran Wybodeg wedi cynllunio prawf adfer TG ar ôl trychineb oherwydd gofynion gweithredol ar lawer o systemau TG hanfodol y BIP. Cynhelir profion goresgyn methiant ar nifer bach o systemau a seilwaith TG ar eu pen eu hunain, er enghraifft, mae CWS y BIP yn cael profion goresgyn methiant fwy neu lai bob chwe wythnos wrth i feddalwedd newydd gael ei ryddhau ar gyfer y CWS. Mae rhai systemau TG a data wedi cael eu hadfer o gopïau wrth gefn yn 2014 ond adferiadau gweithredol nas cynlluniwyd a ddigwyddodd er mwyn ymateb i broblem argaeledd system yw'r rhain ac nid ydynt yn cyfateb i brawf llawn adfer TG ar ôl trychineb a gynlluniwyd. Felly, mae rhai elfennau o gynllun y BIP ar gyfer adfer TG ar ôl trychineb wedi cael eu profi, ond nid fel rhan o brawf llawn adfer TG ar ôl trychineb. |

| Cyfeirnod | Wedi ei roi ar waith? | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| | | | Mae’r BIP wedi cymryd nifer o gamau i liniaru’r risg uchod ac i ddarparu ateb amgen ar gyfer profi trefniadau a systemau wrth gefn. Atgynhyrchir holl systemau hanfodol TG y BIP, heblaw am systemau patholeg Masterlab a Telepath, sydd yng nghanolfan ddata Mamheilad yn YAB. Mae’r gwaith hwn o atgynhyrchu’r rhwydwaith yn digwydd bob dydd. Fel y nodwyd uchod, gwneir copïau wrth gefn o systemau TG llai hanfodol y BIP nas atgynhyrchir i ddyfeisiau RhAS, a gwneir copïau wrth gefn o’r rheini yn eu tro i RhAS arall a leolir ar safle YAB.<br>Mae’r BIP yn bwriadu cynhyrchu map o’r systemau TG hynny sy’n cael eu diogelu trwy eu hatgynhyrchu, ac i nodi trefniadau ar gyfer y rhai nas diogelir yn y dull hwnnw, i roi sicrwydd bod y wybodaeth ar gael i’w hadfer o gopïau wrth gefn a bod cynlluniau’n gweithio fel y dylent.<br>Ynghyd â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), dylai’r BIP gynllunio amserlen ar gyfer trosglwyddo’r hen systemau patholeg Masterlab a Telepath i systemau seilwaith a phatholeg y Ganolfan Ddata Cenedlaethol. |

| Cyfeirnod | Wedi ei roi ar waith? | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A4 | ✓/✗ | Cryfhau'r rheolaethau amgylcheddol dros y brif ystafell gyfrifiaduron. | Gwnaeth y BIP nifer o newidiadau yn 2014 i gryfhau'r rheolaethau amgylcheddol dros y brif ystafell gyfrifiaduron ym Mamheilad. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:<br>• Gosodwyd Cyflenwad Trydan Annhoradwy newydd mewn ystafell yn union y tu allan i'r brif ystafell ddata sy'n helpu i leihau'r defnydd o drydan ac aerdymheru yn y brif ystafell. Mae'r Cyflenwad Trydan Annhoradwy yn amddiffyn caledwedd y ganolfan ddata rhag toriadau annisgwyl yn y cyflenwad trydan. Gosodwyd uned aerdymheru newydd y tu allan i'r brif ganolfan ddata yn ystafell y Cyflenwad Trydan Annhoradwy.<br>• Gosodwyd uned drydan ychwanegol wedi'i chysylltu â chylched ynni ar wahân o fewn y brif ystafell gyfrifiaduron er mwyn caniatáu defnyddio unedau aerdymheru cludadwy petai angen.<br>• Uwchraddiwyd y system larwm amgylcheddol yn ddiweddar i anfon rhybuddion y tu allan i oriau i staff yr Adran Wybodeg. Mae'r system newydd yn anfon negeseuon drwy signa ffôn traddodiadol a thrwy gyfathrebiadau 3G sy'n rhoi gwell cydnerthedd o ran anfon negeseuon os bydd y larymau tymheredd neu amgylchedd yn cael eu sbarduno.<br>Mae'r BIP yn bwriadu gosod pedair uned aerdymheru yn y ganolfan ddata erbyn dechrau mis Ebrill 2015.<br>Bydd y rhain yn disodli'r hen unedau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd.<br>Fodd bynnag mae'r llwybr dianc rhag tân sy'n mynd trwy ganolfan ddata cyfrifiadurol Mamheilad yno o hyd. |

| Cyfeirnod | Wedi ei roi ar waith? | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad o Adfer TG ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes – Argymhellion adroddiad Ionawr 2012** | | | |
| A1 | ✓ | Datblygu'r trefniadau presennol drwy ddod â'r wybodaeth o gofrestrau risg, safonau amgylcheddol a dogfennaeth seilwaith TGCh arall at ei gilydd i sefydlu cynllun buddsoddi. | Mae'r Adran Wybodeg yn rheoli cofrestr risg TG sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd. Mae'n cynnwys risgiau'n ymwneud â chydnerthedd seilwaith a systemau TG sy'n heneiddio neu'n cyrraedd diwedd eu hoes. Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, mae'r BIP wedi blaenoriaethu cael seilwaith TG newydd pan fydd arian ar gael ac wedi cynhyrchu Cynllun Gwybodeg Tymor Canolig treigl dros dair blynedd ar gyfer gwneud ceisiadau am gyfalaf adnoddau i gael seilwaith TG newydd. Fodd bynnag, erys argaeledd cyllid cyfalaf yn broblem, sydd yn rhoi mwy o bwysigrwydd ar reoli risg a blaenoriaethu adnoddau'r BIP. |
| A2 | ✓/✗ | Paratoi amserlen cynnal profion adfer ar ôl trychineb sy'n gymwys i'r systemau clinigol ac ariannol allweddol o leiaf. | Gweler argymhelliad 3 uchod o fis Gorffennaf 2009. Nid yw'r BIP wedi amserlennu prawf llawn blynyddol o ran adfer TG ar ôl trychineb. Mae rhai systemau TG wedi cael eu profi o ran adfer ar ôl trychineb ar wahân i weddill y systemau TG a ddefnyddir. Mae'r BIP wedi cymryd nifer o gamau i liniaru'r risg hwn a darparu ateb amgen i gynnal profion ar y trefniadau a chynlluniau wrth gefn, sef, yn lle gwneud hynny, atgynhyrchu'r holl systemau TG hanfodol sydd yng nghanolfan ddata Mamheilad yn y ganolfan yn YAB.<br>Yn 2015-16, mae'r BIP yn bwriadu cynhyrchu map cydnerthedd systemau dan egwyddorion Rheoli Gwasanaethau, o'r holl systemau TG y mae'n eu defnyddio ac o'r gweithdrefnau argaeledd ac adfer sydd yn bodoli. Bydd hyn yn helpu i nodi unrhyw gamau gwella y bydd eu hangen o ran datblygu cynlluniau argaeledd a'u gwella. |

| Cyfeirnod | Wedi ei roi ar waith? | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A3 | × | Adolygu’r llwybr dianc rhag tân presennol sydd yn mynd drwy ystafell gyfrifiaduron Mamheilad ac sydd yn risg sylweddol. Mae’n rhaid cryfhau trefniadau drwy, er enghraifft, drefnu llwybr arall er mwyn dianc rhag tân. | Nid yw’r BIP wedi symud y llwybr dianc rhag tân sy’n mynd drwy ganolfan ddata cyfrifiaduron Mamheilad ac mae’n parhau i fod yn yr ystafell. Mae Swyddog Tân y BIP wedi asesu’r llwybr dianc rhag tân ac er bod llwybrau eraill wedi’u hasesu, ni newidiwyd y llwybr. Mae rheolaethau wedi eu gosod dros y CCTV o’r drysau i mewn a’r drysau allan o ystafell ganolfan ddata Mamheilad a rheolir mynediad at y rheseli gweinyddion, gydag allwedd yn ofynnol ar gyfer agor pob rhesel. Cynhaliodd yr Adran Wybodeg asesiad risg ar y trefniadau hyn a chredant fod y rheolaethau’n lliniaru’r risg yn rhannol. |
| § | ✓/× | Cwblhau a chymeradwyo unrhyw gynlluniau parhad busnes sydd yn weddill a sicrhau eu bod wedi’u seilio ar dempled safonol a gytunwyd arno a’u bod yn adlewyrchu’r lefel risg briodol. Cynnal profion ar gynlluniau parhad busnes yn rheolaidd a’u diweddaru’n gyson. | Mae’r BIP wedi datblygu Polisi Rheoli Parhad Busnes a chymeradwywyd hwn gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Mawrth 2014. Mae’n ofynnol i bob adran o’r Bwrdd Iechyd Lleol gynnal asesiad risg er mwyn paratoi a chwblhau cynllun parhad busnes. Mae cynlluniau parhad busnes yn cynnwys defnyddio templed a model cardiau camau gweithredu a awgrymir er mwyn safoni cynlluniau.<br>Mae datblygu rhaglen gynhwysfawr a chyfredol o gynlluniau parhad busnes ar draws yr holl BIP yn dasg sy’n cymryd llawer o amser a sefydlwyd Grŵp Rheoli Parhad Busnes i oruchwylio’r rhaglen hon. Mae’r gwaith yn parhau o fewn Isadrannau’r BIP i ddatblygu’r holl gynlluniau parhad busnes sydd eu hangen, er enghraifft, o fewn Teuluoedd a Therapïau ac Iechyd Meddwl.<br>Mae’n ofynnol o dan y polisi i’r holl gynlluniau parhad busnes gael eu hadolygu a’u diwygio o leiaf unwaith y flwyddyn, neu’n gynharach os oes angen. Er bod rhai o’r cynlluniau parhad busnes neu gynlluniau argyfwng wedi cael eu profi’n gyson, mae’r gwaith yn parhau, er enghraifft yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, i gynnal profion ar holl gynlluniau parhad busnes y BIP. |

| Cyfeirnod | Wedi ei roi ar waith? | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A5 | ✓ | Dylai'r Bwrdd Iechyd bwysleisio cyfrifoldeb rheolwyr sefydliadol ac adrannol am ddatblygu trefniadau parhad busnes addas rhag ofn i systemau fethu. | Mae'r BIP wedi pwysleisio'r cyfrifoldeb Is-adrannol am gwblhau cynlluniau parhad busnes yn eglur yn y polisi Rheoli Parhad Busnes. Mae'n ofynnol i bob Is-adran yn y BIP gael swyddog dynodedig sy'n gyfrifol am oruchwylio trefniadau cynlluniau wrth gefn yr Is-adran. |

## Mae trefniadau Caldicott wedi'u datblygu'n dda yn y Bwrdd Iechyd Prifysgol, ond mae lle i wneud rhagor o welliannau drwy gymeradwyo'r diweddariad i strategaeth wybodaeth y Bwrdd Iechyd Prifysgol, cwblhau'r rhaglen datblygu stiwardiaid llywodraethu gwybodaeth a hysbysu cleifion o'r defnydd a wneir o'u gwybodaeth

| Cyfeirnod | Wedi ei roi ar waith? | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad o drefniadau Caldicott** | | | |
| A1 | ✓/✗ | Mae angen diweddaru'r trefniadau presennol ar gyfer hysbysu cleifion o'r defnydd a wneir o'u gwybodaeth. | Mae rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth y BIP yn drafftio ymgyrch posteri a thaflenni newydd ar hyn o bryd a fydd yn cynnwys hysbysiadau prosesu teg i hysbysu cleifion o'r defnydd a wneir o'u gwybodaeth. Bwriedir ymdrin â materion yn ymwneud â chyfrinachedd gwybodaeth cleifion yn ogystal â materion ansawdd gwybodaeth. Mae'r BIP yn cydnabod y bydd angen dosbarthu'r posteri a'r taflenni hyn yn helaeth ar draws yr holl BIP, gan gynnwys y prif Ysbytai a chanolbwyntio ar glinigau a wardiau a gwasanaethau cymunedol. Nod y BIP yw diweddaru a drafftio'r posteri a'r taflenni newydd erbyn diwedd mis Mawrth 2015 yn barod i'w dosbarthu ym mis Ebrill 2015. Pryd y bydd wedi'i gwblhau, bwriedir ychwanegu'r rhain at fewnrwyd y staff ac at wefan y BIP.<br>Cyllideb ar gyfer amser staff y tîm llywodraethu gwybodaeth sydd gan swyddogaeth Llywodraethu Gwybodaeth y BIP yn unig ac nid oes cyllideb ar gyfer unrhyw ymgyrchoedd posteri neu daflenni. Ariannwyd y gwaith o argraffu'r taflenni a'r posteri yn gynnar yn 2015 gan arbedion effeithlonrwydd a wnaed wrth i aelod o'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth ymddeol yn gynnar. Dylai'r BIP ddyrannu cyllideb briodol i'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth i gefnogi rhaglenni hyfforddi ac addysgu ar gyfrinachedd gwybodaeth. |

| Cyfeirnod | Wedi ei roi ar waith? | Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| A2 | ✓/✗ | Cynyddu nifer y Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth. | Cynhyrchodd hunanasesiad Caldicott y BIP ar gyfer 2013 sgôr cydymffurfiaeth o 79 y cant o ran gofynion Caldicott. Mae'r BIP wedi cwblhau hunasesiad Caldicott 2014, a dangoswyd cynnydd parhaus, gyda lefel gydymffurfiaeth o 82 y cant. Cymeradwyodd Bwrdd Gweithredol y BIP yr hunanasesiad Caldicott ar gyfer 2014 ym mis Ebrill 2014. Daw Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth presennol y BIP i ben yn ystod ail chwarter 2015 a diweddarwyd hwn a'i gynnwys yn Strategaeth e-Iechyd drafft y BIP ar gyfer 2014-2019, sydd ar hyn o bryd yn aros i gael ei gymeradwyo gan y tîm Gweithredol.<br>Mae'r BIP wedi cychwyn rhaglen ddatblygu i sefydlu rhwydwaith o Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth i helpu i wella cydymffurfiaeth â gofynion Caldicott. Rheolwyr sy'n galluogi staff y BIP i wneud eu gwaith gan roi sylw dyladwy i ofynion cyfrinachedd gwybodaeth sydd â swyddogaeth Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth. Nid yw swyddogaeth y Stiward Llywodraethu Gwybodaeth yn rôl ffurfiol o fewn y BIP ond fe'i hystyrir yn 'swydd oruchwylio' a ychwanegir at eu swydd rheoli bresennol.<br>Cynyddodd y nifer o Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth o 60 yn gynnar yn 2013 i 170 yn gynnar yn 2015. Mae gan y BIP raglen dreigl i ddatblygu'r rhwydwaith Stiwardiaid Gwybodaeth ar draws meysydd gwasanaeth y BIP, er enghraifft, Iechyd Meddwl a Chofnodion Iechyd. Mae'r BIP yn cydnabod bod datblygu rhwydwaith o Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth yn broses hir ac ar hyn o bryd nid yw pob maes gwasanaeth wedi'i gynrychioli'n ddigonol, ac mae angen rhagor o waith i ddatblygu Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth o fewn Gwasanaethau Cymunedol. Nid yw'r BIP wedi gosod targed ar gyfer y nifer o Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth sydd eu hangen i gefnogi'r holl staff meddygol a gweinyddol yn addas. Er hynny, mae'r BIP yn cydnabod y bydd angen i'r nifer o Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth a bennir fod yn realistig oherwydd y gefnogaeth a'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt. |

| Cyfeirnod | Wedi ei roi ar waith? | Argymhelliad | Crynodeb o’r cynnydd a wnaed |
|---|---|---|---|
| | | | Mae pwyslais y BIP ar ledaenu egwyddorion arfer da Caldicott wedi dechrau esblygu, o sefydlu gofynion priodol ar gyfer cyfrinachedd gwybodaeth i rannu gwybodaeth yn briodol drwy ei drefniadau gwaith â phartneriaid. Mae hyn yn cynnwys y ffyrdd y gall wella cywirdeb gwybodaeth ac ansawdd data. |
| A3 | ✓ | Cryfhau’r defnydd o amgryptiad a chwblhau’r rhaglen amgryptio ar gyfer holl gyfrifiaduron pen bwrdd a gliniaduron y BIP, gan ymestyn hyn i gynnwys cofau pin a chofau bach USB. | Mae gliniaduron a chyfrifiaduron pen bwrdd yn cael eu hamgryptio â meddalwedd McAfee drwy wasanaeth amgryptio GIG Cymru. Mae’r BIP wedi dechrau dosbarthu Windows 8 i gyfrifiaduron pen bwrdd a gliniaduron, a diogelir y rhain gan amgryptiad Microsoft Windows Bitlocker Administration and Monitoring (MBAM). Mae’n fwriad gan y BIP i ddosbarthu amgryptiad MBAM i bob peiriant newydd Windows 2007. Diogelir holl yriannau caled gliniaduron a chyfrifiaduron pen bwrdd y BIP ar level amgryptio 256 did Safon Amgryptio Uwch (Advanced Encryption Standard (AES)).<br>Mae Polisi Diogelwch Gwybodaeth y BIP yn mynnu defnydd o yriannau USB wedi eu hamgryptio er mwyn caniatáu gallu llawn i ysgrifennu a darllen a’r gallu i storio gwybodaeth yn briodol. Mynna Polisi Diogelwch Gwybodaeth y BIP fod pob dyfais USB ag amgryptiad 256 did AES. Gellir cyflenwi’r rhain naill ai drwy’r adran Wybodeg neu gallant argymell pa ddyfeisiau USB y dylid eu caffael gan adrannau’r BIP. Mae angen cyfrinair cryfder ‘cymhleth’ i gael mynediad at yr USB ac ar ôl methu â chwe ymgais, bydd data’r USB yn cael ei ddileu. Mae ateb technegol ar waith, yn defnyddio meddalwedd diogelwch diweddbwynt Sophos Anti Virus i atal ysgrifennu data ar ddyfeisiau USB nad ydynt wedi’u hamgryptio. Mae hwn yn sicrhau mai mynediad ‘darllen yn unig’ a geir i ddata o ddyfais USB nad yw wedi ei amgryptio.<br>Er bod y polisi Diogelwch Gwybodaeth yn gwahardd storio gwybodaeth bersonol ar gyfryngau symudol heb eu hamgryptio, nid oes ateb technegol are gael i rwystro staff y BIP rhag ysgrifennu gwybodaeth bersonol ar gyfrifiaduron pen bwrdd neu liniaduron sydd â gyriannau cd mewnol. Dylid atgoffa staff o ofynion polisi diogelwch TG y BIP pan fo gan staff awdurdod i ysgrifennu ar y peiriannau hynny sydd â gyriannau cd mewnol. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk